

Ethé cyflwyniad

Subjects	Professors
German, French, and Italian	H. Ethé, Ph.D. (Leipzig)
Hebrew, Arabic, Syriac, & Sanskrit*	H. Ethé, Ph.D. (Leipzig)

* Dr. Ethé will be happy to read with Students in other Oriental Languages.
(The Calendar of the University College of Wales, Aberystwyth, 1886-7)

Yn ei ysgrif, 'Impressions of Aberystwyth, 1887–1901' yng nghyfrol Iwan Morgan *College by the Sea* (1928), dywed Dr Charles Herford mai Ethé oedd 'fwy na thebyg, hyd ddiwedd y ganrif o leiaf, yr unig ddyn o safon Ewropeaidd a ddaliai gadair yn unrhyw un o Golegau Cymru.' Ond ysgrifennodd Herford hefyd fod Ethé 'yr unig un â phersonoliaeth annormal amlwg yn y coleg' ac nad oedd 'yn berson a guddiai ei farn am hynodrwydd pobl eraill. I'r gwrthwyneb cyhoeddai ei bresenoldeb â'r chwerthin Homeraidd y cynhyrfai hwy ynddo. Ni wnaeth deugain mlynedd o fyw yn Aberystwyth ddim i'w wneud yn llai estron i'w amgylchedd gymdeithasol. Ychydig o greigiau sy wedi casglu cyn lleied o fwswg mewn amser cyffelyb. Ni welai nodweddion gorau y cymeriad Cymreig, na golygfeydd Cymru, a dihangai oddi wrth y ddau bob gwyliu hir i dafarn bychan yn ymyl afon Rhein yn Oberwesel, "yr unig le yn y byd i ddyn doeth".

Cofiai'r hanesydd R.T. Jenkins (er yn fyfyrwr yn Aberystwyth rhwng 1898 a 1901, nid oedd yn gyfaill i'r Coleg, ac yn wir fe gyfaddefodd yn ei gofiant, *Edrych yn Ôl* (1968), ei fod wedi dewis Aberystwyth yn hytrach na Bangor 'am fod yr ysgoloriaethau'n well, dyna'r cwbl!') yr ysgolhaig ecsentrig hefyd. Credai mai Ethé oedd 'un o'r ysgolheigion mwyaf a welais erioed' a phan fyddai'n darlithio 'byddai llais taranllyd y Dr Ethé'n cylchdroi yn y nenfwd pell, gan wneud sŵn fel petai llond hambwrdd o lestri pridd wedi disgyn i'r llawr'. Ond cofiai hefyd ddedfryd sgornllyd Ethé pan ganmolai rhywun [y llyfrgell]: '*Library!* – zis is *nod* a Library! – zis is a gollegshion of boogs!' (t104).

'Oedd, yr oedd rhywbeth "stupendous" ynddo – ni wn i am air gwell – rhywbeth anhygoel, megis un o olion creaduriaid y cynfyd; yr oedd yn llinach ysgolheigion cawraidd yr Almaen yn hanner ola'r ddeunawfed ganrif.' (t113)

‘Bwriai oriau lawer bob dydd uwchben ei lyfrau. Ond yr oedd yn bell iawn o fod yn llyfrbryf gwelw di-waed. Cerddwr mawr; smociwr dygn – sigâr braff rhwng ei wefusau byth a beunydd; yfwr mawr; bwytäwr mawr; chwarddwr taranllyd. Byddai ei lach ar fwytawyr llysiau, ac ar lwrymwrthodwyr – “Miss W, she iz a ve-ge-tar-i-an! She iz like Nebuchadnezzar, she lives on *grass*, Ho-Ho-Ho!”’ (t113)

‘Ac fe yfai fel ych – ond petasai’n yfed diod gadarn fesul bwcedaid, ni buasai blewyn o’i wallt (nid bod ganddo lawer) wedi cyffroi. Edrydd fy mhriod wrthyf mor aml y gwelodd hi Ethé a’i wraig (gyntaf) yn eistedd o flaen ffenestr agored eu tŷ, a phob o botyn pridd anferth o gwrw o’u blaenau, yn *Aberystwyth* dduwiolfrydig, lle’r oedd “*etiquette*” yn gofyn ichwi bob amser fynd i dafarn drwy ei drws cefn! – bu’n rhaid i’r hen ŵr dalu am y sarhad hwn ar gartre’r *Gyffes Ffydd*.’ (t114)

Ac hanes y talu hynny a geir yma yn achos **Yr Athro Carl Hermann Ethé (1844-1917): hefyd yn ddoddefwr o’r Rhyfel Byd Cyntaf.**

Rydym yn ddiolchgar iawn i Christopher T. Husbands am ganiatáu i ni gynnwys yma yr adran ar Hermann Ethé o’i astudiaeth hirach, *German-/Austrian-origin Professors of German in British universities during the First World War: the lessons of four case studies*, gellir ei gweld yn ei chyfanrwydd yma:

http://eprints.lse.ac.uk/49797/1/Husbands_German_Austrian_origin_2013.pdf.